

Cofnodion Cyngor Bro Trelech a'r Betws

Cynhaliwyd cyfarfod yng Nghanolfan Gymunedol Pen-y-bont nos Lun 5 Chwefror 2018 am 8.00pm.

Y cyngorwyr a oedd yn bresennol: Dyfed Davies (Cadeirydd), Eirian Howells (Is-gadeirydd), Derrick Harries, John Phillips, Ambrose Lewis, Arwyn Jones, Alyson Harries, Andrew Jones a Linda Davies.

Yn cymryd y cofnodion: Davies Parry Williams (Clerc).

1. **Ymddiheuriadau:** Ann Sillars a'r Cyngorydd Sir Jean Lewis

2. **Sylwadau'r Cadeirydd**

Agorodd Dyfed Davies y cyfarfod a diolchodd i'r Cyngorwyr a'r Clerc am fod yn bresennol ar noson mor oer.

3. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol:**

Darllenwyd, derbyniwyd a llofnodwyd yn gywir gofnodion y cyfarfod blaenorol.

4. **Trafod materion sy'n codi o'r cofnodion**

- Ardal parc Trelech – gobeithid y byddai ychydig o gynnydd yn cael ei wneud wrth i'r tywydd wella.
- Roedd y ffosydd o Panthowell Lodge i Felindre wedi cael eu glanhau.
- Nid oedd y clerch wedi cael unrhyw adborth o hyd ynghylch y wal a oedd wedi cael ei chodi y tu allan i Bendre.
- Diffibrilwyr – Roedd cynrychiolydd o'r elusen Cariad wedi rhoi cyflwyniad i gangen leol Merched y Wawr ac wedi awgrymu y dylai'r diffibrilwyr gael eu lleoli lai na dwy filltir oddi wrth ei gilydd, neu fod yn rhaid i bobl allu cael mynediad iddynt o fewn 10 munud er mwyn iddynt fod yn effeithiol.
- Gwefan – Nid oedd Matt a Sarah Hind, Hindsite, wedi codi tâl ar y cyngor am eu gwaith yn creu'r wefan. Paratowyd a chyfieithwyd holl gynnwys y wefan gan Catrin Parry Williams. Awgrymwyd y dylai'r cyngor ei had-dalu am y dasg feichus. Penderfynwyd y gofynnid i Catrin godi tâl ar y cyngor am ei gwaith.
- Arwyddion cŵn yn baeddu – dim adborth ar y pryd.

5. **Gohebiaeth**

- 5.1) Llythyr oddi wrth CThEM ynghylch cosb o £400 am beidio â chyflwyno ffurflen P35 yn 2014. Yn groes i'r llythyr, roedd nifer o ymatebion wedi cael eu hanfon i CThEM ynghylch y mater, ac wedi cael eu hanwybyddu. Byddai ymateb pellach yn cael ei anfon i CThEM.
- 5.2) Neges e-bost dyddiedig 21/11/2017 oddi wrth Amanda Bebb ynghylch adfer yr enw "Trelech a'r Betws" yn enw cywir ar y cyngor bro.

- 5.3) Neges e-bost dyddiedig 05/12/2017 oddi wrth Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen yn apelio am arian.
- 5.4) Neges e-bost dyddiedig 05/12/2017 oddi wrth Gangen y Gwasanaeth Ambiwylans yn apelio am arian ar gyfer ei Gwobrau a'i helusen staff.
- 5.5) Neges e-bost dyddiedig 10/01/2018 oddi wrth Bwyllgor Gweithredol Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn apelio am arian i gefnogi'r eisteddfod eleni.
- 5.6) Neges e-bost dyddiedig 11/01/2018 oddi wrth Gyngor Sir Caerfyrddin ynghylch cau ffordd y C2114 rhwng Capel Bethania, Talog ac American House, Pen-y-bont ar 12 a 13 Chwefror er mwyn i Dŵr Cymru allu gwneud gwaith hanfodol.
- 5.7) Neges e-bost dyddiedig 21/01/2018 oddi wrth Faer Caerfyrddin ynghylch Gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi a fyddai'n cael ei chynnal ddydd Sadwrn 03/03/2018 am 11.00am o'r Parc i Sgwâr Guildhall.
- 5.8) Neges e-bost dyddiedig 31/01/2018 oddi wrth Un Llais Cymru yn cynghori cynghorau i gynnwys lwfans ar gyfer cynghorwyr yn eu cyllidebau ar gyfer 2018/2019.

6. Cyllideb

Cytunwyd ar gyllideb 2018/19 gan neilltuo lwfans ar gyfer treuliau posibl y cynghorwyr. Dogfen 05.02.18_Budget1819.

7. Aseiad Risg

Trafodwyd a chytunwyd ar yr aseiad risg ar gyfer 2018/19. Dogfen 05.02.18_Riskassessment1819.

8. Cyllid

Cyfrif Busnes Cyfredol £1,595.45

Cyfrif Busnes Wrth Gefn £760.58

9. Unrhyw Fater Arall

- 9.1) Gwirio'r llinellau gwyn ar ochr Pen-y-bont o Groesffordd.
- 9.2) Arwyddion cŵn yn baeddu – roedd angen gosod arwyddion ar y llwybr rhwng Dinas Mill a Threlech.
- 9.3) Cyflwr y ffordd Werdd o Brunant i Afon Dewi.
- 9.4) Roedd angen glanhau'r ffos gyferbyn â bwthyn Derlwyn er mwyn osgoi llifogydd yn yr ardal.